# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 29 Chwefror 2024

Amser: 09.30 - 10.55

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn: http://senedd.tv/cy/13701

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS |
| Tystion: | Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet (Gweinidog Cymru)<br>Emma Watkins, Llywodraeth Cymru<br>Sharon Bounds, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd) |

## Cofrestru

## Rhag-gyfarfod preifat

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 PTN 1 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) - 21 Chwefror 2024**

**2.2 PTN 2 - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhentwyr (Diwygio) - 23 Chwefror 2024**

**2.3 PTN 3 - Llythyr gan Sam Rowlands AS: Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) - 19 Chwefror 2024**

**2.4 PTN 4 - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol - 26 Chwefror 2024**

## 3 Craffu ar Ail Gyllideb Atodol 2023-24 Llywodraeth Cymru

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol; Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllideb a Busnes y Llywodraeth a Sharon Bounds, Dirprwy Gyfarwyddwr, Rheolaeth Ariannol wrth Graffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24.

3.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu'r canlynol:

- Nodyn ar y meysydd o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n tanwario ar hyn o bryd.

- Nodyn ar lefel y cymhorthdal fesul teithiwr mewn perthynas â threnau yng Nghymru.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn ac o'r cyfarfod ar 6 Mawrth

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24: Trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.